# ATODLEN 2

# TELERAU CYTUNDEBAU CARTREFI SYMUDOL

## RHAN 1

## TELERAU A YMHLYGIR GAN Y DDEDDF

### PENNOD 2

### CYTUNDEBAU SY'N YMWNEUD Â LLEINIAU AC EITHRIO'R RHAI HYNNY SYDD AR SAFLEOEDD AWDURDODAU LLEOL I SIPSIWN A THEITHWYR

*Rhoi cartref symudol yn anrheg*

12 (1) Os yw cytundeb yn gytundeb newydd, ar yr amod bod y meddiannydd wedi rhoi'r dystiolaeth berthnasol i'r perchennog, mae gan y meddiannydd hawl i roi'r cartref symudol, ac i aseinio'r cytundeb, i aelod o deulu'r meddiannydd (y "meddiannydd newydd") heb gymeradwyaeth y perchennog.

(2) Dyma'r dystiolaeth berthnasol—

(a) tystiolaeth, neu dystiolaeth o ddisgrifiad, a ragnodir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru fod y person y mae'r meddiannydd yn bwriadu rhoi'r cartref symudol iddo, ac aseinio'r cytundeb iddo, yn aelod o deulu'r meddiannydd, neu

(b) unrhyw dystiolaeth foddhaol arall fod y person o dan sylw yn aelod o deulu'r meddiannydd.

(3) Rhaid i'r meddiannydd newydd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r perchennog ei fod wedi cael y cartref symudol a bod y cytundeb wedi ei aseinio iddo.

(4) Ni chaiff y perchennog ei gwneud yn ofynnol i unrhyw daliad gael ei wneud (boed i'r perchennog neu fel arall) mewn cysylltiad â rhoi'r cartref symudol, ac aseinio'r cytundeb, a grybwyllir yn is-baragraff (1).

(5) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi gofynion ynglŷn â gweithdrefnau y mae'n rhaid i'r perchennog, y meddiannydd neu'r meddiannydd newydd gydymffurfio â hwy mewn cysylltiad â rhoi'r cartref symudol, ac aseinio'r cytundeb, a grybwyllir yn is-baragraff (1).